Pecyn Dogfennau

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

**DYDD LLUN, 23 HYDREF 2023**

**AT: HOLL AELODAU'R PWYLLGOR TRWYDDEDU**

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU CYFARFOD O'R **PWYLLGOR TRWYDDEDU** A GYNHELIR YN **SIAMBR, NEUADD Y SIR, CAERFYRDDIN, SA31 1JP AC O BELL** AM **10.00 YB, DYDD MAWRTH, 31AIN HYDREF, 2023** ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA ATODEDIG.

*Wendy Walters*

**PRIF WEITHREDWR**

AILGYLCHWCH OS GWELWCH YN DDA

| | |
|---|---|
| **Swyddog Democrataidd:** | **Emma Bryer** |
| **Ffôn (Llinell Uniongyrchol):** | **01267 224029** |
| **E-bost:** | **ebryer@sirgar.gov.uk** |

Wendy Walters Prif Weithredwr*, Chief Executive,*
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP
*County Hall, Carmarthen. SA31 1JP*

# PWYLLGOR TRWYDDEDU
**14 AELOD**

**Y GRŴP PLAID CYMRU – 8 AELOD**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Y Cynghorydd | Mansel Charles [Cadeirydd] |
| 2. | Y Cynghorydd | Alex Evans |
| 3. | Y Cynghorydd | Tyssul Evans |
| 4. | Y Cynghorydd | Ken Howell |
| 5. | Y Cynghorydd | Hefin Jones |
| 6. | Y Cynghorydd | Jean Lewis |
| 7. | Y Cynghorydd | Dorian Phillips [Is-Gadeirydd] |
| 8. | Y Cynghorydd | Elwyn Williams |

**Y GRŴP LLAFUR – 4 AELOD**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Y Cynghorydd | Peter Cooper |
| 2. | Y Cynghorydd | Suzy Curry |
| 3. | Y Cynghorydd | Dot Jones |
| 4. | Y Cynghorydd | Kevin Madge |

**Y GRŴP ANNIBYNNOL – 2 AELOD**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Y Cynghorydd | Louvain Roberts |
| 2. | Lle Gwag | |

***DYLAI AELODAU FOD YN YMWYBODOL NA CHANIATEIR IDDYNT OFYN I AELODAU O FEWN EU GRWPIAU EU HUNAIN I'W CYNRYCHIOLI MEWN CYFARFODYDD O'R PWYLLGOR YMA***

# AGENDA


| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.** | |
| **2.** | **DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.** | |
| **3.** | **LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU 'A' A GYNHALIWYD AR 9FED AWST 2023.** | 5 - 6 |
| **4.** | **LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU 'B' A GYNHALIWYD AR 4YDD HYDREF 2023.** | 7 - 10 |
| **5.** | **LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU A GYNHALIWYD AR 21AIN MEDI, 2023** | 11 - 14 |
| **6.** | **GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD** | |


NI DDYLID CYHOEDDI'R ADRODDIAD SY'N YMWNEUD Â'R MATERION CANLYNOL GAN EU BOD YN CYNNWYS GWYBODAETH EITHRIEDIG FEL Y'I DIFFINIWYD YM MHARAGRAFF 12 O RAN 4 O ATODLEN 12A I DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972 FEL Y'I DIWYGIWYD GAN ORCHYMYN LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) (AMRYWIO) (CYMRU) 2007 GAN EI FOD YN CYNNWYS GWYBODAETH AM UNIGOLYN PENODOL.

OS BYDD Y PWYLLGOR AR ÔL CYNNAL PRAWF LLES Y CYHOEDD YN PENDERFYNU YN UNOL Â'R DDEDDF, I YSTYRIED Y MATER HYN YN BREIFAT, GORCHMYNNIR I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD YN YSTOD TRAFODAETH O'R FATH.


| | | |
|---|---|---|
| **7.** | **MR IAN RICHARD PRICE - CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT** | 15 - 18 |
| **8.** | **MR GARETH LAURENCE WILLIAMS - CAIS DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT** | 19 - 22 |
| **9.** | **MR LEE STUART JONES - CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT** | 23 - 26 |
| **10.** | **MR IMTIAZ RASOOL - CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT.** | 27 - 30 |
| **11.** | **MR GLEN JOHN DAVIES - CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT** | 31 - 34 |

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU A

## DYDD MERCHER, 9 AWST 2023

**PRESENNOL** Cynghorydd J.M. Charles (Cadeirydd) (Yn rhithwir)

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**
A. Evans W.T. Evans

**Arsylwyr (Yn rhithwir):**
Y Cynghorydd S.A. Curry

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):**
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
E. Jones, Arweinydd Trwyddedu
A. Rees, Swyddog Trwyddedu
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
A. Eynon, Prif Gyfieithydd
J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Rhith-Gyfarfod - 10.00 - 11.29 yb**

**1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.**

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

**2. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitem ganlynol yn cael ei chyhoeddi gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

**3. DEDDF TRWYDDEDU 2003 CAIS YN YMWNEUD Â DOSBARTHIAD FFILM**

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 2 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn arwain at gyhoeddi ffilm heb dystysgrif a byddai hynny'n tanseilio'r amcanion trwyddedu.**

Bu'r Is-bwyllgor yn ystyried cais a gafwyd gan Llinos Hallgarth, ar ran Cered - Menter Iaith Ceredigion, yn gofyn am argymhelliad ynghylch caniatáu i blant wylio ffilm a oedd yn ddiddosbarth yn flaenorol.

Nododd yr Is-bwyllgor y dylai'r ffilm a ddangosir gael argymhelliad ynghylch caniatáu i blant eu gwylio, a roddwyd naill ai gan Gorff Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain neu gan yr Awdurdod Trwyddedu perthnasol, a hynny er mwyn bodloni gofynion Deddf Trwyddedu 2003.

Er mwyn galluogi'r Is-bwyllgor i wneud yr argymhelliad gofynnol ynghylch caniatáu i blant wylio'r ffilm, cafodd gyfle i wylio'r ffilm gan roi ystyriaeth i'r canllawiau ynghylch y graddau oedran a luniwyd gan Fwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain.

Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a roddwyd gerbron,

**PENDERFYNODD YR IS-BWYLLGOR YN UNFRYDOL y byddai "Teulu Tŷ Crwn" yn cael ei hystyried yn ffilm yr argymhellir i blant ei gwylio yng nghwmni oedolyn (PG).**

**CHAIR** **DATE**

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU B

## DYDD MERCHER, 4 HYDREF 2023

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd D.E. Williams (Cadeirydd) (Yn y Siambr)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**
B.D.J.Phillips

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**
M.J.A. Lewis

**Arsylwyr (Yn rhithwir):**
Y Cynghorydd D. Jones Y Cynghorydd K. Madge

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwir):**
D. Paffett, Cynrychiolydd Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
R. Edgecombe, Legal Services Manager
E. Jones, Licensing Lead
K. Smith, Licensing Officer
E. Evans, Principal Democratic Services Officer
J. Owens, Democratic Services Officer

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwir):**
M. Runeckles, Swyddog Cymorth Aelodau
S. Rees, Cyfieithydd ar y Pryd

**Siambr- Neuadd Y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP. - 2.00 - 2.43 yp**

**1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.**

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

**2. ALEXANDER DANIELS - DEILIAD TRWYDDED BERSONOL**

Dywedwyd bod Mr Alexander Daniels, o 27 Brynawelon, Llanelli, SA14 8PU, yn dal trwydded bersonol gyda'r Awdurdod, a'i fod wedi ei gael yn euog o drosedd berthnasol a oedd yn gofyn ystyriaeth gan yr Is-bwyllgor.

Rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth i'r dogfennau a gyflwynwyd, a'r holl sylwadau ysgrifenedig perthnasol a gafwyd gan y partïon.

Rhoddodd yr Arweinydd Trwyddedu wybod i'r Is-bwyllgor am y materion a oedd wedi codi mewn perthynas â thrwydded bersonol Mr Daniels. Cafwyd sylwadau llafar hefyd gan gynrychiolydd Heddlu Dyfed-Powys a Mr Daniels.

Rhoddwyd cyfle i bawb a oedd yn bresennol ofyn cwestiynau am y sylwadau a wnaed.

Argymhellodd yr Arweinydd Trwyddedu y dylid ystyried atal neu ddiddymu trwydded bersonol Mr Daniels.

Felly bu i'r Is-bwyllgor:

**BENDERFYNU YN UNFRYDOL cynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16, Atodlen 12 i'r Ddeddf Llywodraeth Leol.**

Ar ôl ystyried y paragraffau perthnasol o Ddatganiad Polisi Trwyddedu'r Awdurdod Trwyddedu a'r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a chan y Swyddfa Gartref:

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth o'i flaen, fod trwydded bersonol Mr Daniels yn cael ei hatal am gyfnod o 15 diwrnod.**

<u>Rhesymau</u>

Wrth benderfynu ar y cais, yr oedd y ffeithiau canlynol yn hysbys i'r Is-bwyllgor:

- Bod Mr Daniels wedi dal trwydded bersonol ers mis Hydref 2019.
- Cafwyd Mr Daniels yn euog o drosedd, sef gyrru dan ddylanwad alcohol, ar 01/02/2023. Cafodd ei wahardd rhag gyrru am 14 mis.
- Doedd Mr Daniels ddim yn gallu rhoi sampl anadl wrth ymyl y ffordd. Yn hytrach, rhoddodd sampl gwaed yng ngorsaf yr heddlu. Roedd 125mg o alcohol yn y sampl gwaed. Y terfyn yw 80mg. Cafodd ei stopio gan yr heddlu am ei fod yn goryrru.
- Ni wnaeth Mr Daniels hysbysu'r awdurdod trwyddedu ynghylch ei euogfarn.
- Daeth yr euogfarn i'r amlwg dim ond yn sgil cais i amrywio'r Goruchwylydd Penodedig Safle ar gyfer safle ym mis Mehefin 2023.
- Nid yw Mr Daniels wedi ei gael yn euog o drosedd gymwys o'r blaen.
- Nid yw trwydded bersonol Mr Daniels wedi cael ei hatal na'i diddymu o'r blaen.
- Byddai atal neu ddiddymu'r drwydded yn cael effaith andwyol ar fywoliaeth Mr Daniels.
- Mae'r Is-bwyllgor yn nodi bod ganddo ddisgresiwn i atal neu ddiddymu trwydded Mr Daniels.
- Roedd yr Is-bwyllgor wedi rhoi pwys ar farn yr Heddlu.

Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a'r sylwadau, mae'r Is-bwyllgor yn fodlon, ar sail yr hyn a oedd yn debygol, ei bod yn briodol atal trwydded bersonol Mr Daniels am 15 diwrnod er mwyn hyrwyddo'r amcan o ran atal troseddau yn Neddf Trwyddedu 2003. Y rheswm am hyn yw bod gan Mr Daniels, fel deiliad trwydded bersonol, gyfrifoldeb i helpu i atal eraill rhag cyflawni troseddau sy'n gysylltiedig ag alcohol, gan gynnwys yfed a gyrru, ac felly mae'r ffaith ei fod wedi cyflawni'r drosedd hon yn peri pryder mawr.

Mae'r Is-bwyllgor o'r farn bod hyn yn ymateb cymesur i'r ffeithiau a roddwyd ger ei fron. Teimlai'r Is-bwyllgor y byddai diddymu'r drwydded neu gyfnod atal hirach yn effeithio'n anghymesur ar Mr Daniels, ond hefyd y byddai peidio â gosod cyfnod atal yn fethiant ar ran yr Is-bwyllgor i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

__________________________
**CHAIR**

____________________
**DATE**

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# PWYLLGOR TRWYDDEDU

## DYDD IAU, 21 MEDI 2023

**PRESENNOL** Cynghorydd J.M. Charles (Cadeirydd)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**
P. Cooper

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**

| | | | |
|---|---|---|---|
| S.A. Curry | A. Evans | W.T. Evans | J.K. Howell |
| D. Jones | M.J.A. Lewis | B.D.J. Phillips | |

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwir)**
L. Bradshaw - Cynrychiolydd Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
A. Eynon, Prif Gyfieithydd
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):**
J. Power, Uwch Swyddog Trwyddedu
M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aeolodau

**Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP ac o bell - 10.00 - 10.50 yb**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr H. Jones, K. Madge a D. E. Williams.

**2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

**3. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU A GYNHALIWYD AR 27 GORFFENNAF 2023.**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf 2023 yn gofnod cywir.**

## 4. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

**PENDERFYNWYD, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

## 5. MR IAN RICHARD PRICE - DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mr Ian Richard Price, Crynga Bach, Llwyndrain, Llanfyrnach am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

Gan nad oedd Mr Price yn bresennol yn y cyfarfod, gofynnodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu am ohirio'r ystyriaeth i'r cyfarfod nesaf.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ohirio ystyried y cais a gyflwynwyd gan Mr Price i gyfarfod nesaf y Pwyllgor.**

## 6. MR PHILIP GEORGE MALIPHANT - CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mr Philip George Maliphant, Ystafell Fach, Heol Llanddarog, Llanarthne am ganiatáu Trwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

Rhoddodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu wybod i'r Pwyllgor am y materion a oedd wedi codi mewn perthynas â'r cais.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Maliphant ynghylch ei gais a'r materion a godwyd gan yr Uwch-swyddog Trwyddedu.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mr Maliphant yn cael ei ganiatáu a'i fod yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

Ar hynny:

**PENDERFYNWYD cynnal sesiwn breifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

Ar ôl y toriad, ailymgynullodd y Pwyllgor i roi ei benderfyniad.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu cais Mr Maliphant am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat a rhoi rhybudd iddo ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

7. **MR ROBERT DANIEL ISAAC - CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT**

Cafodd y Pwyllgor wybod, ar ôl cyflwyno'r wybodaeth a oedd ei hangen fel rhan o brosesau llywodraethu'r Awdurdod, fod y cais wedi'i dynnu'n ôl.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi bod y cais wedi'i dynnu'n ôl.**

8. **MR STEVEN PETER CAREY - CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mr Steven Peter Carey, 38 Mount Pleasant, Tre-gŵyr, Abertawe am ganiatáu Trwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

Rhoddodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu wybod i'r Pwyllgor am y materion a oedd wedi codi mewn perthynas â'r cais.

Roedd yr Pwyllgor wedi cyfweld â Mr Carey ynghylch y materion a godwyd gan yr Uwch-swyddog Trwyddedu a chynrychiolydd Heddlu Dyfed-Powys.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mr Carey yn cael ei wrthod.

Ar hynny:

**PENDERFYNWYD cynnal sesiwn breifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

Ar ôl y toriad, ailymgynullodd y Pwyllgor i roi ei benderfyniad.

**PENDERFYNWYD wrthod y cais a gyflwynwyd gan Mr Carey am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.**

<u>Rhesymau</u>
Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd ac wrth ystyried y canllawiau perthnasol, roedd y Pwyllgor yn fodlon nad oedd yr ymgeisydd yn rhywun addas a phriodol i feddu ar drwydded.

9. **MR GEORGE JULIAN PETER CHEESEMAN - TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT**

Cafodd y Pwyllgor wybod, ar ôl cyflwyno'r wybodaeth a oedd ei hangen fel rhan o brosesau llywodraethu'r Awdurdod, fod yr eitem wedi'i thynnu'n ôl.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi bod yr eitem wedi'i dynnu'n ôl.**

**10. MR NATHAN EDWARD JAMES COURTNEY - TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT**

Cafodd y Pwyllgor wybod, ar ôl cyflwyno'r wybodaeth a oedd ei hangen fel rhan o brosesau llywodraethu'r Awdurdod, fod yr eitem wedi'i thynnu'n ôl.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi bod yr eitem wedi'i dynnu'n ôl.**

| | |
|---|---|
| ________________________ | __________________ |
| **CHAIR** | **DATE** |

Yn rhinwedd paragraff(au) 12 o Ran 4 o Atodlen 12A o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd ga
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# Eitem Rhif 8

Yn rhinwedd paragraff(au) 12 o Ran 4 o Atodlen 12A o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd ga
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Eitem Rhif 9

Yn rhinwedd paragraff(au) 12 o Ran 4 o Atodlen 12A o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd ga
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# Eitem Rhif 10

Yn rhinwedd paragraff(au) 12 o Ran 4 o Atodlen 12A o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd ga
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Yn rhinwedd paragraff(au) 12 o Ran 4 o Atodlen 12A o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd ga
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol